

# LLWYDDIANT ALWENA



Geneth ifanc yn B4 oedd Alwena Luff pan symudodd i'r ardal o swydd Derby. Fel dysgwraig pur fe fynychodd Alwena a'i brawd y Ganolfan Iaith ym Maesinla ac ers dychwelyd i'r ysgol ym Montnewydd mae ei gallu a'i hyder wedi tyfu a datblygu'n eithriadol dros y ddwy flynedd diwethaf.

Erbyn hyn mae hi wedi cyrraedd diwedd ei chyfnod yn B6. Mae'n hollol rhugl yn yr iaith gan allu sgwrsio'n rhydd a naturiol, darllen yn wych ac ysgrifennu'n hynod o safonol. Mae'n mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ffurfiau ac mae'n cynhyrchu gwaith hynod o ddiddorol sydd yn bleser i'w ddarllen.

Dylai Alwena a'i theulu fod yn falch iawn o'i llwyddiant diweddar, hi oedd enillydd y gadair yn Eisteddfod Bontnewydd. Dim ond gobeithio y gwnaiff barhau i ysgrifennu yn y dyfodol ac y gwelwn hi'n ennill sawl cadair.

Sian Pritchard  
Athrawes B1 6, Ysgol Bontnewydd

Y Ffossydd

Flanders

Ffrainc

2il o Orffennaf, 1917

Annwyl deulu,

Sut mae pawb yn yr Ysgwrn? Ydy Dad wedi cael gwared o'i affliw? Gobeithio eich bod chi'n edrych ar ol y defaidi Hei, Mam, dal ati i goginio dy fugeidi enwog! Tra ddi'n cofio, ydy Bob wedi dod heibio'r sioc o'r rhyfel? Ydy'r ceiliog dal i godi chi'n gynnar? Sut mae Bella'r bawch? Ydy hi dal yn rhoi llaeth blasus i chi? Gobeithio bod Catrin yn dal ati i wrio cwiltiau. Gobeithio bod Twin yn mwynhau'r ysgol.

Mae'r ffossydd yn erchyll! Mae yna waed ymhobman, a baw dros y lle i gyd. Mae cyrff a darnau o gyrff yn gorchuddio maes y frwydr. Mae'r ffossydd yn llawn llygod mawr sydd yn bwyta ein broyd, sydd ddi'n yn debyg i goginio Mam! Mae'r llwch yn gwneud i bawb berychu, ac mae gen i ychydig o annwyd oherwydd y dur rhewllyd sy'n llifo i mewn i'r ffossydd. O! Mae'n mor dorcalonus i glywed y chruiban ac i redeg i Dir Neb, a gweld fy ffrindiau i gyd yn cael eu lladd. Mae'r gynnau'n mor drwm, a dim ond helmed denau, a rhywfath o got sydd yna i warchod ein hunain. Rydw i'n cadw golwg heno, ond mae'n well na cysgu yng nghanol gwaed a llygod mawr.

Rydw i wir eisiau mynd ar dref i Drawsfynydd i weld y mynyddoedd a fy annwyl deulu! Does dim byd gwell na codi'n gynnar yn y bore i fugeilio allan yn yr awyr agored. O! Rwyf eisiau weld yr olygfa brydferth tu allan i'r ffenestr! O! Rwyf eisiau gweld fy nghadeiriau unwaith eto! Rydw i'n colli fy ngwely cynnes, dyd. Rydw i'n colli cwiltiau Catrin. Pam oes rhaid i mi bod yma yn ymladd? Pam?

'Sgw'n i beth a ddaw ohona i yma. Efallai mai dyna fydd y llychyr olaf gen i y gwch chi. Beth os mai'r brwydr nesaf fydd fy mwydr olaf i? Beth os yw'r chruiban yn canu a 'dwi'n mynd yn sonnd' yn y ffens weiren bigog? Efallai na fyddai'n gweld y byd eto mewn ychydig o oriau!

Rydw i'n edrych ymlaen i'ch weld chi (os ydw i'n fyw!) a'r defaid. Wna'i byth anghofio chi, paid ag anghofio amdanaf i! Cofiwch edrych ar ol yr anifeiliaid. Well i mi cael ychydig owsig cyn heno rwan.

Cofion cynnes

Ellis x



Aelodau'r Tim Buddugol

Rhes gefn: Aaliyah Brooke-Pratt, Justin Williams, Mali Evans, Eva Jones  
Rhes flaen: Sasha Jones, Lois Evans, Cadi Gaffey, Cedri Jones, Calum Smith a Brychan ap Gareth

## CWIS LLYFRAU

Daeth tîm o Ysgol Cefn Coch, Wrth longyfarch y plant a'u Penrhyndeudraeth yn fuddugol allan o 17 o dimau trwy Gymru, gan gipio Tarian y Dr Dewi Davies i ddisgyblion B3 a 4 yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth y Cyngor Llyfrau Cymraeg a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Y dasg oedd trafod llyfr a llunio cyflwyniad dramatig heb fod yn hwy na 10 munud o hyd. Y ddau lyfr a ddewiswyd oedd 'Siencyn a'r Sipsiwn' a 'Dan Draed Dan Glo' gan yr awdures Eurgain Haf.

Wrth longyfarch y plant a'u hatrawes, Mrs Helen Pritchard, dywedodd pennaeth yr ysgol, Iwan Morgan, sydd newydd ymddeol ddiwedd yr Haf wedi bron i 20 mlynedd yno: "Mae'r cyfoeth o brofiadau a dderbyniodd disgyblion yr ysgol dros y blynyddoedd wedi bod yn rhai amrywiol. Wrth longyfarch y plant yma ar eu buddugoliaeth, carwn dalu teyrnged i'm cyd-athrawon brwdfrydig a galluog a sicrhodd bod y plantos yn cael manteisio ar y cyfleoedd hynny."